# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR APELIADAU A DYFARNIADAU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD Y CYNGHORWYR 235, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 26 EBRILL 2016 AM 9.30 AM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J P Curtice | J A Hale |
| R D Lewis | K E Marsh | H M Morris |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally Isaacs | Eversheds |
| Huw Jones | Eversheds |
| Steve Rees | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| Deb Yeates | Prif Swyddog Adnoddau Dynol (yn rhinwedd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd) |

12 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

13 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL GAN AELODAU.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd J A Hale - agenda'n gyffredinol - mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Addysg (Arlwyo) ac rwy'n aelod o UNSAIN – personol.

14 **COFNODION:**

**CYMERADWYWYD** cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 8 Medi 2015 fel cofnod cywir.

15 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau canlynol ar yr agenda**.**

**(SESIWN GAEËDIG)**

16 **HONIAD O FWLIO AC AFLONYDDU.**

Derbyniodd y pwyllgor sylwadau gan y swyddog dan sylw.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r cyfarfod gael ei ohirio tan 12 Mai 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35 am.

**Adalwyd y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau ddydd Iau, 12 Mai am 9.30 am.**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd J. A. Hale.

Derbyniodd y pwyllgor mwy o sylwadau gan y swyddog dan sylw, yr oedd ganddo gwmni ar yr achlysur hwn.

**PENDERFYNWYD**:

a) Y dylai'r mater gael ei gyfeirio i'r Person Annibynnol Dynodedig (DIP) er mwyn gallu ymgymryd ag ymchwiliad cynhwysfawr;
b) Yn ystod yr ymchwiliad, ni fyddai gwaharddiad ffurfiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25 pm.

**CADEIRYDD**